***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## FFIOEDD A THALIADAU

### *Pŵer i ddarparu ar gyfer ffioedd neu daliadau: swyddogaethau newydd*

1 (1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer codi ffioedd neu daliadau eraill, neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd neu daliadau eraill, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth ("y swyddogaeth berthnasol") sydd gan awdurdod lleol yn rhinwedd darpariaeth a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r adrannau a ganlyn—

(a) adran 3 (pwerau i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE);

(b) adran 4 (pwerau i ailddatgan deddfiadau sy'n deillio o'r UE);

(c) adran 5 (pwerau i bennu darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE fel un sy'n parhau i gael effaith);

(d) adran 9 (pwerau sy'n ymwneud â chydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol);

(e) adran 10 (pwerau i weithredu'r cytundeb ymadael);

(f) adran 11 (pŵer i weithredu rhwymedigaethau gan yr UE).

(2) Caiff rheoliadau o dan y paragraff hwn (ymhlith pethau eraill)—

(a) pennu'r ffioedd neu'r taliadau neu wneud darpariaeth o ran sut y maent i'w penderfynu;

(b) darparu ar gyfer adennill neu waredu unrhyw symiau sy'n daladwy o dan y rheoliadau;

(c) rhoi pŵer i'r awdurdod cyhoeddus i wneud, drwy is-ddeddfwriaeth, unrhyw ddarpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud o dan y paragraff hwn mewn perthynas â'r swyddogaeth berthnasol.

(3) Ni chaiff rheoliadau o dan y paragraff hwn—

(a) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;

(b) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.